



GIG
CYMRU
NHS
WALES


Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Ymweliad eich babi â'r clinig clyw



Newborn Hearing Screening **Wales**
Sgrinio Clyw Babanod **Cymru**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn print mawr
a Braille. I gael fersiynau sain ac Iaith Arwyddion
Prydain, ewch [www.newbornhearingscreening.
wales.nhs.uk](http://www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk)**



Ymweliad eich babi â'r clinig clyw

Mae'r daflen yma yn rhoi gwybod i chi os bydd angen asesu clyw eich babi.

Mae'n esbonio:

- pam mae angen prawf clyw arall ar eich babi;
- pa mor debygol yw hi bod colled clyw ar eich babi;
- pryd a ble bydd y prawf yn cael ei wneud;
- beth fydd yn digwydd ar ôl y prawf.

Pam mae angen prawf clyw arall fy mabi?

Nid oedd y profion sgrinio'n dangos ymateb clir o un o glustiau'ch babi, neu o'r ddwy glust. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu bod colled clyw ar eich babi. Efallai bod hyn oherwydd:

- bod y babi'n aflonydd;
- bod hylif yn y clustiau ar ôl y geni;
- bod gormod o sŵn o gwmpas y babi pan oedd y prawf yn cael ei wneud.

Gallwch ddewis a fydd eich babi'n cael y prawf yma neu beidio.

Pa mor debygol yw hi bod colled clyw ar fy mabi?

Mae un neu ddau o bob 1000 o fabanod yn cael eu geni â cholled clyw ar y ddwy glust. Mae'r rhan fwyaf o'r babanod yma'n cael eu geni i deuluoedd lle nad oes gan neb arall golled clyw. Mae ychydig yn llai o fabanod yn cael eu geni â cholled clyw mewn un glust. Efallai fod babi a oedd angen gofal arbennig yn fwy tebygol o fod â cholled ar ei glyw. Drwy ddarganfod hyn yn gynnar byddwch chi a'ch babi'n cael cymorth a gwybodaeth o'r dechrau.

Mae'r bocs isod yn dangos y siawns bod colled clyw ar eich babi os oes angen prawf clyw arall arno.

	● Babi â cholled barhaol ar ei glyw ● Babi heb golled barhaol ar ei glyw
---	--

Mae hyn yn golygu y bydd colled clyw parhaol ar un babi o bob 10 sy'n cael prawf clyw arall.

Pryd a ble bydd y prawf yn cael ei wneud?

Bydd y prawf yn cael ei wneud mewn clinig mewn ysbyty. Byddwn yn anfon apwyntiad at y rhan fwyaf o fabanod tua phedair wythnos ar ôl y prawf sgrinio. Bydd babanod a gaiff eu geni'n gynnar iawn yn cael y prawf ar ôl y dyddiad yr oedden nhw i fod i gael eu geni. Mae hyn yn rhoi cyfle i lwybr clywed eich babi ddatblygu.

Sut mae'r prawf yn cael ei wneud?

Awdiolegydd (arbenigwr clyw) fydd yn gwneud y prawf. Mae'n cael ei wneud pan mae'ch babi'n llonydd neu'n cysgu. Mae'r apwyntiad yn cymryd tua dwy awr fel arfer ac mae'n cynnwys cyfle i chi setlo'ch babi er mwyn iddo fynd i gysgu. Gallwch aros gyda'ch babi tra bydd y prawf yn cael ei wneud. Bydd tri o badiau bach gludiog yn cael eu rhoi ar ben eich babi. Bydd clustffonau (earphones) bach yn cael eu rhoi yn ei glustiau a fydd yn gwneud gwahanol synau. Mae cyfrifiadur yn dangos i'r awdiolegydd sut mae clustiau'ch babi'n ymateb i'r synau.



Efallai y bydd clustffon bach meddal yn cael ei roi yn rhan allanol clust eich babi. Bydd hyn yw dangos a oes hylif yng nghlust eich babi.



Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?

Os oes ymateb clir o'r ddwy glust, mae'n debyg nad oes colled clyw ar eich babi. Bydd yr awdiolegydd yn rhoi gwybodaeth i chi am y ffordd y mae babanod yn ymateb i sŵn wrth iddyn nhw dyfu. Bydd yn dweud wrthyh beth i'w wneud os ydych yn poeni o gwbl am glyw eich babi.

Efallai na fydd y prawf yn rhoi ymateb clir o un o glustiau'ch babi, neu o'r ddwy glust. Bydd yr awdiolegydd yn esbonio ystyr hyn. Mae gwahanol fathau a gwahanol lefelau o golled clyw. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o brofion cyn y byddwch yn gwybod am glyw eich babi. Bydd yr awdiolegydd yn cynllunio gyda chi pryd yw'r adeg orau i'ch babi gael mwy o brofion.

Profion eraill sy'n cael eu defnyddio

Gallai'r awdiolegydd ail-wneud y prawf cyntaf a gafodd eich babi. Efallai y bydd teclyn bach sy'n gwneud synau yn cael ei roi y tu ôl i glust eich babi. Mae'r prawf yma'n dangos i'r awdiolegydd sut mae clust fewnol eich babi'n ymateb i'r sŵn.

Ar ôl y prawf, bydd yr awdiolegydd yn ateb unrhyw



gwestiynau sydd gennych. Os oes colled clyw ar eich babi, byddwch yn cael cynnig cymorth a byddwch yn cael mwy o wybodaeth.

Defnyddio eich gwybodaeth

Er mwyn i ni gysylltu â chi fel rhan o'r rhaglen, bydd angen i ni drin a thrafod gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch babi. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch chi am hyn, gallwch:

edrych ar y wefan: publichealthwales.org/privacy;

anfon e-bost i: PHW.InformationGovernance@wales.nhs.uk;
neu

ffonio: 02920 104307.

Rydym hefyd yn cadw manylion personol eich babi i wneud yn siŵr bod safon ein gwasanaeth mor uchel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gofnodion eich babi os canfyddir bod colled clyw ar eich babi ar ôl iddo gael canlyniad normal mewn prawf sgrinio.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os hoffech wneud sylwadau neu awgrymiadau am raglen Sgrinio Clyw Babanod Cymru, anfonwch e-bost drwy ein gwefan neu ffoniwch ni ar un o'r rhifau ffôn sy'n dilyn.

Gogledd Cymru: 01978 727005

Canolbarth a Gorllewin Cymru: 01792 343364

De-ddwyrain Cymru: 029 21843568

Gallwch hefyd gysylltu â'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS). Mae Llinell Gymorth gan y Gymdeithas i rieni a theuluoedd sy'n chwilio am ragor o wybodaeth am brofion clyw ac am unrhyw fath o golled clyw sy'n effeithio ar blant.

Llinell gymorth rhadffôn NDCS: 0808 800 8880

Gwefan NDCS: www.ndcs.org.uk

Os oes gennych unrhyw bryderon, ysgrifennwch at:

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sgrinio

4ydd Llawr, 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.